## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag ymgysylltu â’r cyhoedd ar safleoedd awyr agored. Mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn gallu cyfathrebu’n effeithiol â’r cyhoedd sy’n ymweld â’r safle a gofalu am eu lles a’u diogelwch, yn ogystal ag amddiffyn y safle, ei gymeriad a’i gynnwys.

Dylech fod yn ymwybodol o fygythiadau, peryglon neu dor-cyfraith gwirioneddol neu bosibl, o ran rhai cyffredinol a’r rhai sy’n gysylltiedig yn benodol â’r safle rydych chi’n gweithio arno. Hefyd, mae angen i chi wybod sut i ddelio ag ymddygiad di-hid a gwrthgymdeithasol a thorri deddfwriaeth amgylcheddol yn gysylltiedig â rhywogaethau a safleoedd gwarchodedig. Gallai hyn gynnwys rhoi gwybod i aelodau’r cyhoedd am beryglon a bod yn effro i ymddygiad amheus.

Hefyd, mae’n cynnwys ymgysylltu â chymunedau lleol.

Mae’r safon hon yn addas i’r rhai sy’n gweithio mewn Cadwraeth, Rheoli Ystâd, Gwaith Ciper, Ffermio, Coedwigaeth, Garddwriaeth ac ati.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyflwyno delwedd broffesiynol ohonoch eich hun a’ch sefydliad
2. croesawu aelodau’r cyhoedd sy’n ymweld â’r safle, yn unol â pholisïau’r sefydliad
3. hyrwyddo nodweddion a gwerth y safle i ymwelwyr, i ychwanegu at eu mwynhad a’u dealltwriaeth o’r safle a’i ddiben
4. darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad perthnasol i wahanol aelodau’r cyhoedd i fodloni eu hanghenion yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
5. gofalu am ymwelwyr yn unol â’u hanghenion a pholisïau sefydliadol
6. annog ymwelwyr i ddefnyddio’r safle yn gyfrifol, mewn ffordd sy’n gyson â’i ddiben a’i gyflwr
7. annog ymwelwyr i gynnal eu diogelwch eu hunain a diogelwch unrhyw bobl, plant neu gŵn sydd gyda nhw yn ystod ymweliadau â’r safle, a rhoi gwybod iddynt am beryglon
8. tynnu sylw ymwelwyr at bolisïau’r safle ar gŵn
9. annog ymwelwyr i wneud y mwyaf o botensial eu hymweliad ac i fanteisio ar yr hyn sydd gan y safle i’w gynnig, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd i gynorthwyo â chadwraeth natur
10. gweithredu i reoli pwysau ymwelwyr, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
11. nodi unrhyw ymddygiad di-hid neu wrthgymdeithasol gan aelodau’r cyhoedd a gweithredu, fel bo angen
12. nodi aelodau’r cyhoedd sy’n torri’r gyfraith, casglu tystiolaeth o’r digwyddiad, heb roi eich hun mewn perygl, a gweithredu fel bo’r angen i roi gwybod amdano i’r heddlu neu i awdurdod priodol arall
13. ymgysylltu â chymunedau lleol i hyrwyddo gweithgareddau sefydliadol a meithrin perthnasoedd yn unol â pholisïau’r sefydliad
14. archwilio cyfleoedd i’r gymuned gymryd rhan yng ngweithgareddau’r sefydliad, yn unol â pholisïau’r sefydliad
15. gwneud eich gwaith yn ddiogel, yn unol â’r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesiadau risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
16. annog adborth ar ymgysylltu â’r cyhoedd a chyfleu eich canfyddiadau i’r person perthnasol
17. gwneud newidiadau i ymateb i adborth, o fewn eich awdurdod

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben a gwerth cyflwyno delwedd broffesiynol ohonoch eich hun a'ch sefydliad
2. deddfwriaeth, codau ymarfer a gofynion perthnasol eich sefydliad ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
3. pwysigrwydd a diben ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol, o fewn eich cylch gwaith
4. nodweddion a gwerth y safle awyr agored – i'ch galluogi i ddarparu gwybodaeth ac ymateb i ymholiadau
5. ffyrdd o ymgysylltu â'r cyhoedd, annog rhyngweithio cadarnhaol ac addasu arddulliau cyfathrebu yn ôl y gynulleidfa
6. y mathau o wybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n ofynnol gan aelodau'r cyhoedd a sut i ddarparu hyn
7. yr amrywiaeth o wahanol aelodau'r cyhoedd y gallech ddod ar eu traws yn eich lle gwaith
8. pam mae gan y sefydliad bolisïau mynediad neu ardaloedd dynodedig penodol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd
9. pwysigrwydd annog ymwelwyr i gynnal eu diogelwch wrth ddefnyddio'r safle, gan dynnu'u sylw at beryglon
10. pwysigrwydd ymwelwyr yn rheoli cŵn i amddiffyn staff, ymwelwyr eraill, da byw, bywyd gwyllt a diogelwch y ci
11. anghenion y safle a'r effeithiau y gallai ymwelwyr eu cael arno
12. pwysigrwydd cydbwyso anghenion y safle ag anghenion ymwelwyr, a'r camau i'w cymryd i reoli pwysau ymwelwyr
13. y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â throseddau yn erbyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd, a deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r safle
14. y bygythiadau y gallai'r cyhoedd eu peri i safleoedd a sut i ddelio ag aelodau'r cyhoedd sy'n achosi bygythiad i safleoedd neu sy'n ymddwyn yn ddi-hid neu'n wrthgymdeithasol
15. sut i ddefnyddio tactegau tawelu i ddelio â gwrthdaro
16. y weithdrefn i'w dilyn wrth ddelio â thor-cyfraith, gan gynnwys gofynion adrodd a phwy i adrodd iddynt
17. ffyrdd o gynnal cysylltiad â chymunedau lleol a meithrin perthynas
18. amrywiol lefelau ymgysylltu â chymunedau lleol a dulliau o hwyluso ymgynghoriad effeithio â'r gymuned

19. pwysigrwydd hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y gymuned o rôl a diben y sefydliad fel rhan o ymgynghori a chydweithredu
20. y cyfleoedd i’r gymuned gymryd rhan yng ngweithgareddau’r sefydliad a’r ffactorau amrywiol i’w hystyried wrth werthuso cyfleoedd posibl
21. sut i ddatrys gwrthdaro posibl a gwirioneddol mewn buddiannau wrth weithio gyda chymunedau lleol
22. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol yn gysylltiedig â chi, eich cydweithwyr a’r cyhoedd, gan gynnwys yn gysylltiedig â gweithio ar eich pen eich hun
23. sut i gael a monitro adborth gan y cyhoedd
24. cyfyngiadau eich awdurdod a’ch cymhwysedd ac at bwy i gyfeirio os bydd angen cyngor neu arweiniad arnoch

## Geirfa

**Tor-cyfraith:**

- dwyn
- difrod troseddol
- cynnau tân
- defnydd anghyfreithlon ar ddatgelydd metel
- defnydd anghyfreithlon ar ddronau gan ladron i weld beth sydd ar gael ar safle
- taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon
- ymosodiad
- ymosodiadau gan gŵn ar dda byw, bywyd gwyllt a phobl
- troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus
- tresmasu/torri rheoliadau mynediad
- troseddau treftadaeth
- troseddau bywyd gwyllt e.e.
- tarfu
- erlid
- herwhela
- rhyddhau rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) i'r gwyllt neu ryddhau rhywogaethau planhigion neu anifeiliaid y tu hwnt i'w cynefin cynhenid

**Bygythiadau:**

- i'r safle a'i gynnwys
- i'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig
- i fflora a ffawna
- i'ch iechyd, diogelwch neu ddiogeledd personol chi
- i iechyd, diogelwch a diogeledd pobl eraill

**Gwerth safleoedd awyr agored:**

- gwerth cymdeithasol
- gwerth economaidd
- gwerth cynhenid (aer glân/gostwng CO2, cyfalaf naturiol)
- iechyd a lles
- gwerth hanesyddol/diwylliannol

**Ymwelwyr:**

- oedolion
- plant a phobl ifanc
- teuluoedd
- pobl llai abl a bregus
- grwpiau diddordeb cyffredinol
- grwpiau diddordeb arbennig
- defnyddwyr hamdden
- pobl â gofynion arbennig
- pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 4 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEnC1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Ceidwad Parc, Gweithiwr Ystâd, Ciper, Swyddog Mynediad, Rheolwr Eiddo, Ceidwad, Coedwigaeth |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | ymwelwyr; y cyhoedd; troseddau bywyd gwyllt; cymuned |